S4C /

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 477
14:00, 21 Mai 2025
Ystafell 4D, Sgwâr Canolog, Caerdydd

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys (rhithiol)
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant – tan eitem 5
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata
- Iestyn Morris [IM], Pennaeth Cyfreithiol a Materion Busnes
- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid
- Eilir Jones [EJ], Pennaeth Ymchwil Cynulleidfa (rhithiol) – ar gyfer eitem 5

<table>
<tr><td>1.</td><td>Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i GB am ei waith fel Cadeirydd dros dro yn ystod y 13 mis blaenorol, gan gydnabod ei gyfraniad gwerthfawr. Croesawodd hefyd yr Aelodau Anweithredol newydd i'r Bwrdd, gan fynegi ei bod yn edrych ymlaen at eu cyfraniadau yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.</td><td></td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Diweddariad y Cadeirydd<br><br>Amlinellodd y Cadeirydd y gwahanol gyfarfodydd roedd wedi mynychu yn ystod ei thair wythnos gyntaf yn y swydd, gan gynnwys:<ul><li>Cyfarfodydd 1:1 gyda holl aelodau'r Bwrdd.</li><li>Annerch staff Yr Egin ar 01 Mai, yn ogystal â holl staff S4C yn ystod Cyfarfod Staff yn Sgwâr Canolog ac yn rhithiol ar 07 Mai.</li><li>Ymweliad y Dirprwy Weinidog, Steph Peacock AS, ag S4C a Boom Cymru ar 14 Mai.</li><li>Ymddangos gerbron Pwyllgor Diwylliant Senedd Cymru ar fore 21 Mai.</li></ul></td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: I gynnwys adroddiad ysgrifenedig i'r dyfodol ar y cyfarfodydd mae'r Cadeirydd wedi mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd.** | |
| 3. | **Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain**<br><br>Cyflwynodd GE yr adroddiad, gydag aelodau eraill yr Uwch Dîm Arwain (UDA) yn cyflwyno'r elfennau oedd roedd ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Dechreuodd GE drwy wahodd adborth ar fformat yr adroddiad, gan roi pwyslais arbennig ar safbwyntiau aelodau newydd er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'u hanghenion.<br><br>Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar bynciau yn cynnwys: Cynnwys (uchafbwyntiau diweddar, y dashfwrdd misol diweddaraf, ac adborth y gynulleidfa); Cyfathrebu a Marchnata; Pobl a Diwylliant; Cyllid; Risg; ac S4C Masnachol.<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, bu rhai o staff S4C ar ymweliad â TG4, gan fanteisio ar y cyfle i feithrin perthnasoedd gwerthfawr. Croesawyd hyn, gan nodi y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd gael gwell dealltwriaeth o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng S4C a TG4.<br><br>**Penderfyniad: Gwahodd Alan Esslemont (cyn Brif Weithredwr TG4) i siarad â'r Bwrdd.**<br><br><u>Cynnwys</u><br><br>Cafwyd trafodaeth am statws y pum prif gwmni sy'n darparu cynnwys i S4C, a'r angen i gefnogi twf cwmnïau llai. Nododd GE fod perthynas gadarnhaol rhwng S4C a TAC, gan nodi bod S4C yn ymwneud â chwmnïoedd o bob maint. Pwysleisiwyd mai'r egwyddor sylfaenol yw comisiynu ar sail y syniad a'r gallu i gyfleu. Yn ddiweddar, mae cyd-gynyrchiadau rhwng cwmnïoedd o wahanol faint wedi'u hannog, yn ogystal â hyrwyddo rhannu staff.<br><br>Yn ddiweddar, bu DE yn ymweld â rhai o'r cwmnïoedd cynhyrchu sy'n darparu cynnwys i S4C. Pwysleisiwyd yr angen i holl aelodau'r Bwrdd fynd allan i gwrdd â'r gwahanol gwmnïoedd pan fyddant yn yr ardaloedd perthnasol.<br><br>Ers cychwyn fel Prif Swyddog Cynnwys, roedd Ll wedi bod yn adolygu'r hyn y mae S4C yn ei gomisiynu. Er mwyn cynnig elfen o sicrwydd i'r sector, roedd yn ystyried comisiynu dwy gyfres ar y tro, ond gyda 'break clause' addas. Roedd Ll hefyd yn awyddus i gymryd penderfyniadau comisiynu'n gynt, a thynnu ar y data sydd ar gael i S4C fel rhan o'r penderfyniad.<br><br>Adroddodd GE bod rhai elfennau o'r sector, yn enwedig y cwmnïoedd llai, wedi teimlo nad oeddent yn derbyn unrhyw adborth gan S4C wedi i'w cynnwys cael ei ddarlledu. Bellach mae Ll wedi cyflwyno trefn le mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu mewn da bryd, i'w cynnal rhyw fis wedi'r darllediad olaf.<br><br>Roedd dymuniad ar ran y Bwrdd i gwrdd â'r comisiynwyr yng nghwmni Ll, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u safbwyntiau a'u disgwyliadau. | |

<table>
<tr><td></td><td> Penderfyniad: Gwahodd y comisiynwyr (gyda'r Prif Swyddog Cynnwys) i ymuno â'r Bwrdd yn y cyfarfod 'Cwrdd i Ffwrdd' ym Medi 2025 i drafod y strategaeth gynnwys.
Awgrymwyd y byddai'n fuddiol ychwanegu naratif i'r Dashfwrdd Cynulleidfa Misol er mwyn gwneud y canlyniadau'n haws i'w dehongli. Cytunwyd â hyn, gan y byddai disgwyl i'r Bwrdd dreulio mwy o amser yn ystyried y dashfyrddau hyn yn y dyfodol.
Penderfyniad: Adolygu fformat y dashfyrddau perfformiad cynnwys misol, er mwyn ychwanegu naratif cliriach i helpu deall y canlyniadau'n well.
Holwyd a oedd gan S4C personas yn adlewyrchu'r data gwylio a'r hyn y mae'n ei ddangos. Atebwyd fod gan S4C personas, gan gynnwys rhai a ddefnyddir ar gyfer marchnata eu cynnwys. Serch hynny, roedd yna deimladau cymysg ynghylch gwerth personas, a bod yr adran Farchnata a Chyfathrebu bellach yn canolbwyntio ar garfannau a chynulleidfaoedd, gan roi sylw arbennig i dueddiadau niferus megis C2DEs, pobl ifanc, a'r grŵp oedran 25-44.
<u>Cyfathrebu a Marchnata</u>
Cyfeiriodd MEA at lwyddiant Sioe Nadolig Cyw. Holwyd a oedd S4C yn gwneud digon i hyrwyddo ei chynnwys trwy ysgolion. Atebodd MEA fod gan S4C swyddog addysg sy'n cysylltu ag ysgolion, ond mae mwy y gellir ei wneud yn y maes hwn.
Awgrymwyd fod angen strategaeth benodol ar gyfer Cyw, gan mai dyma le mae S4C yn meithrin ac ehangu ei chynulleidfaoedd. Pwysleisiwyd hefyd fod Cyw yn chwarae rhan allweddol o ran strategaeth iaith, yn enwedig o ran hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y cartref.
<u>Pobl a Diwylliant</u>
Cyflwynodd NB brif ganfyddiadau'r Arolwg Pwls, gan nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers y tro diwethaf. Nodwyd bod angen dadansoddi ymhellach, ac wedyn creu cynllun gweithredu 'Chi'n dweud, ni'n gwneud'. Byddai copi o'r cynllun hwn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd.
Ar hyn o bryd, nid yw'r arolwg Pwls yn cofnodi pa adran y mae rhywun yn gweithio ynddi, sy'n golygu nad oes modd nodi a oes ardaloedd penodol o'r busnes sy'n wynebu problemau. Esboniwyd bod hyn er mwyn rhoi sicrwydd i'r staff na fyddai modd eu hadnabod o'u hatebion.
Awgrymwyd y byddai cyflwyno canlyniadau cyffelyb ar ffurf graff yn y dyfodol yn hwyluso adnabod tueddiadau yn effeithiol.
Penderfyniad: Cwblhau dadansoddi adborth yr Arolwg Pwls diweddaraf, a chreu cynllun gweithredu i'w rannu gyda'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf. </td><td></td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Strategaeth 2030</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Ers y diweddariad a ddarparwyd i'r Bwrdd ar 13 Mawrth 2025, roedd yr Uwch Dîm Arwain wedi parhau i ddatblygu'r strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2025–30.<br><br>Cyflwynodd GE y fersiwn diweddaraf o Strategaeth 2030, ynghyd â chyfres o ddogfennau atodol:<br>• Gweledigaeth ar gyfer 2030;<br>• Amserlen arfaethedig ar gyfer cymeradwyo a chyhoeddi Strategaeth 2030; ac<br>• Adolygiad o Strategaeth 2022–27, i'w rannu gyda'r DCMS.<br><br>Trafodwyd y strategaeth ddrafft gan y Bwrdd, ac fe nodwyd y themâu allweddol ar gyfer y drafft nesaf.<br><br>**Penderfyniad: Parhau i ddatblygu'r strategaeth newydd, gan ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfarfod.** | |
| 5. | [Ymunodd EJ â'r cyfarfod, a gadawodd NB y cyfarfod]<br><br>**Adolygu perfformiad cynnwys S4C yn ystod y flwyddyn flaenorol**<br><br>Mae Ofcom yn ei gwneud yn ofynnol i S4C gyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni ar ddechrau pob blwyddyn, ac i gyhoeddi Adolygiad o Bolisi Rhaglenni ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. Cymeradwywyd Datganiad Polisi Rhaglenni S4C ar gyfer 2025–26 gan y Bwrdd ar 13 Mawrth 2025.<br><br>Cyflwynodd Ll y fersiwn drafft o'r Adolygiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2024–25. Wrth wneud hynny, nododd fod twf sylweddol wedi bod yn yr elfen ddigidol, ond bod y rhan fwyaf o'r sector cynhyrchu'n dal i weithredu ar sail model llinol.<br><br>Pwysleisiodd Ll hefyd yr angen i annog mwy o amrywiaeth o leisiau a straeon, gan fod sawl syniad diweddar wedi bod yn rhy debyg. Awgrymwyd y dylai cwmnïau gynhyrchu recriwtio'n fwy eang, a bod angen gosod targedau amrywiaeth ar y sgrin a'r tu ôl i'r sgrin. Dylai S4C hefyd geisio cymell cwmnïau i ddod â phobl newydd i'r sector.<br><br>Cyflwynodd EJ y sgorfyrddau perfformiad ar gyfer Ebrill – Rhagfyr 2024. Roedd y data'n cynnig cipolwg ar gyfraniad pob rhaglen a'i chyrhaeddiad ymhlith cynulleidfaoedd gwahanol. Nodwyd nad oedd data ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn eto wedi'i ddadansoddi.<br><br>Holwyd a oedd S4C yn hyderus ynghylch dibynadwyedd y ffigurau. Eglurodd EJ fod S4C yn ddibynnol ar ddata BARB gan fod dros 80% o'r gwylio ar y gwasanaeth llinol, ac mai dyma'r wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br><br>Trafodwyd effaith newidiadau i aelodaeth panel BARB yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod S4C wedi gofyn i gynnwys mwy o bobl ifanc yn y sampl, ond bod hyn wedi arwain at ddisodli gwylwyr cyson gan unigolion nad oeddent yn gwylio'n rheolaidd. Er bod y sampl yn parhau i gynrychioli demograffeg Cymru – gan fod canlyniadau'r panel yn cael eu pwysoli – roedd posibilrwydd o lai o gywirdeb mewn grwpiau oedran penodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Tynnwyd sylw at y diffyg cyfeiriad at gost yr awr, gan awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael mesur clir o werth ac effaith o fewn cyllidebau'r rhaglenni.<br><br>**Penderfyniad: Ystyried ychwanegu gwybodaeth ynghylch 'cost yr awr' cynnwys i'r sgorfyrddau perfformiad cynnwys.**<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr Adolygiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2024–25 i'w gyhoeddi ar wefan S4C (wedi i bwt am gynnwys plant gael ei ychwanegu).**<br><br>[Gadawodd EJ y cyfarfod] | |
| 6. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd ar 30/04/25); a'r<br>• Pwyllgor Achosion (cofnod o drafodaethau diweddar)<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Nododd GE fod Bwrdd y Grŵp Masnachol wedi cynnal cyfarfod strategol yn Sgwâr Canolog ar 19 Mai 2025. Adnabuwyd yr angen i ailystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Twf, gan nad oedd buddsoddi wedi llwyddo fel y bwriadwyd oherwydd newidiadau yn yr amgylchiadau. Yn ogystal, roedd dymuniad i ehangu sut mae S4C yn elwa o'i frandiau blaenllaw, megis Cyw.<br><br>Holwyd pryd y cyflwynir adroddiadau ariannol Bwrdd y Grŵp Masnachol i'r Bwrdd. Nodwyd bod datganiadau ariannol blynyddol yn cael eu darparu, ynghyd â diweddariadau ariannol chwarterol, yn unol â'r rheolau sefydlog. | |
| 7. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Ystyried yr agwedd 'Tybiaeth Cwmni Gweithredol' (ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2024–25)</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r adroddiad 'Tybiaeth Cwmni Gweithredol (ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2024–25).**<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 476, a gynhaliwyd ar 13/03/2025.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf, sef:<br>• Bod y Cynllun Gweithredu yn sgil adroddiad Capital Law bellach wedi ei gyflawni;<br>• Cytunwyd i'r trefniadau amgen ar gyfer diweddaru'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain ar yr achosion cyfreithiol presennol;<br>• Cymeradwywyd diwygiadau i'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth;<br>• Cymeradwywyd diwygiadau pellach i God Ymarfer Aelodau'r Bwrdd;<br>• Cymeradwywyd Protocol ar gyfer Cyfathrebu mewn Argyfwng; a<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf.<br><br>Awgrymwyd ei bod yn hanfodol i'r Bwrdd gael trosolwg clir o'r cynnydd a wneir gyda'r strategaeth EDI. | |
| 8. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod yn erbyn Cod Diwylliant S4C**<br><br>Gwnaeth DE arwain gwerthusiad cryno ar sut oedd y Bwrdd wedi cynnal gwerthoedd y Cod Diwylliant yn ystod y cyfarfod. Diolchwyd i bawb am gynnal trafodaethau da a chadw at amser. | |